DARGANFOD MAPIAU YNG NGHOFNOD HENEBION CENEDLAETHOL CYMRU

Ardal Llanidloes ym 1887. Map ordnans 25'', argraffiad cyntaf, dalen sir Drefaldwyn XLVII.4. DI2011_1094

CBHC RCAHMW
Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government



Ardal Treharris ym 1919. Map ordnans 25'', ail argraffiad. DI2012_0326

Defnydd

Gall ymchwilwyr astudio'r mapiau sy'n cael eu cadw yng Nghofnod Henebion Cenedlaethol Cymru. Yn ogystal, gallant weld mapiau Arolwg Ordnans 25" a 6" fel haenau ar System Wybodaeth Ddaearyddol.

Yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg gwelwyd twf aruthrol mewn gweithgarwch diwydiannol, dyfodiad y camlesi a'r rheilffyrdd, cynlluniau ehangu trefol enfawr, a datblygiadau pwysig eraill a weddnewidiodd rannau o dirwedd wledig Cymru. Mae mapiau'r cyfnod yn tystio i lawer o'r newidiadau hyn.

Ar raddfa lai, gellir yn aml olrhain hanes adeiladau unigol, enwau ffermydd ac aneddiadau, lleoliad hynafiaethau, a thirnodau eraill megis ffynhonnau, cerrig milltir a choed hyd yn oed.

Mae croeso i chi weld y catalog a'r casgliadau wedi'u digido ar *Coflein*, ein cronfa ddata o safleoedd a'n catalog o archifau, ar-lein yn www.coflein.gov.uk, neu yn ein llyfrgell ac ystafell chwilio.

Ystad Baron Hill, Ynys Môn: map ystad o gatalog gwerthiant. C19734

Arolwg Ordnans

- Mapiau Arolwg Ordnans 1", 'Hen Gyfres' Cynhyrchwyd rhwng 1805 a 1873. Mae cyfrol sy'n cynnwys mapiau ffacsimili o Gymru o'r gyfres hon ar gael yn y llyfrgell.
- Mapiau Arolwg Ordnans 25", Cyfres y Siroedd
  Y rhain yw'r mapiau mwyaf o ran graddfa a gynhyrchwyd yn fasnachol yn y DU. Cawsant eu cyhoeddi mewn camau a chwblhawyd yr argraffiad cyntaf ym 1890. Mae gan CHCC gyfres unigryw o fapiau gwaith yr arolygwyr Arolwg Ordnans a luniodd Gyfres Siroedd Cymru sy'n dangos y mapiau ail argraffiad cyhoeddedig a gwybodaeth mewn glas o'r gyfres flaenorol mewn haen oddi tanynt.
- Mapiau Arolwg Ordnans 6''
  Mae'r fersiynau hyn sy'n deillio o Gyfres y Siroedd yn cynnig gwell drosolwg o'r ardaloedd ar y mapiau. Mae Argraffiad Dros Dro (a gynhyrchwyd cyn cyflwyno Cyfeirnodau Grid Cenedlaethol) a set gyda gridiau ar gael.
- Mapiau Arolwg Ordnans modern o Gymru yn y cyfresi Landranger a Pathfinder.

Map Arolwg Ordnans 6", ail argraffiad, dalen Sir Forgannwg XXVII NE (1901), Cwm Rhondda.

Casgliadau

- Set o fapiau Arolwg Ordnans 1:10,000 sy'n ffurfio mynegai i gardiau'r NAR [Cofnod Archaeolegol Cenedlaethol]. Mae manylion safleoedd a darganfyddiadau, gan gynnwys cyfeiriadau llyfryddol, i'w cael ar y cardiau NAR. Olion archaeolegol sy'n cael y sylw pennaf.
- Catalogau gwerthiant ystadau o ddechrau'r ugeinfed ganrif Maent yn cynnwys mapiau (wedi'u seilio ar fapiau 25" Cyfres y Siroedd gan mwyaf) sy'n dangos ffiniau'r darnau o dir sydd ar werth. Caiff yr eitemau hyn eu disgrifio'n fanwl a rhoddir enwau tenantiaid yn aml.
- Mapiau o Fur Antwn, Prydain Fore, Prydain Rufeinig, Caerfaddon Rufeinig a Chanoloesol, Caerfaddon Sioraidd, Caerefrog y Llychlynwyr a'r Oesoedd Canol, Caerefrog Rufeinig ac Angliaidd, a mapiau eraill.
- Adargraffiadau o fapiau cynnar, gan gynnwys map ffordd stribed Ogilby (1675), map Blaeu o Sir Forgannwg (1645), mapiau Bowen o Dde Cymru (1729), cynllun Speed o Gaerdydd (1610) ac eraill.
- Siartiau'r Morlys Siartiau arforol modern o ddyfroedd arfordirol Cymru.

Ystafell chwilio Henebion Cenedlaethol Cymru.

Gwasanaethau

- Gwasanaeth ymholiadau am ddim i'r cyhoedd
- Gwasanaeth chwilio blaenoriaethol
- Llyfrgell ac ystafell chwilio
- Llyfrgell ddelweddau
- Digido
- Setiau data a mapio digidol
- Ymweliadau gan grwpiau
- Adnoddau addysgol

Ar agor: Dydd Llun, Dydd Mawrth, Dydd Iau a Dydd Gwener 9:30 – 16:00, Dydd Mercher 10:30 – 16:30.
I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'n staff cyfeillgar a phroffesiynol yn:

Llyfrgell a Gwasanaeth Ymholiadau CHCC
CBHC
Ffordd Penglais
Aberystwyth
Ceredigion, SY23 3BU

Ffôn: +44 (0)1970 621200
E-bost: chc.cymru@cbhc.gov.uk
Gwefan: www.cbhc.gov.uk
Ein cofnod o safleoedd a chatalog ar-lein:
Coflein: www.coflein.gov.uk